**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**8 Hydref 2020**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

**Y Cynghorwyr:**
Steve Collings, Aled Evans, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gareth Tudor Morris Jones, Huw Wyn Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dewi Owen, Dewi Roberts, Elfed Powell Roberts, Mair Rowlands, Paul Rowlinson (Cadeirydd).

**Aelod Cyfetholedig:**
Dilwyn Elis Hughes (UCAC)

**Swyddogion yn bresennol:**
Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr – Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Cemlyn Williams (Aelod Cabinet Addysg)
Garem Jackson (Pennaeth Addysg)
Gwern ap Rhisiart (Swyddog Addysg Ardal Dwyfor / Meirion)

**Hefyd yn bresennol:**
Margot Jones (Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Abersoch) ac Eifiona Wood (Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Abersoch)

**Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Freya Bentham, Anest Gray Frazer (Eglwys yng Nghymru) a Dylan Huw Jones (NASUWT)

**HYSBYSIAD PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI CYNGOR GWYNEDD**

**(Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad Cyfarfod Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI** | 8 Hydref 2020 |

---

**PWNC**

Eitem 7: PENDERFYNIAD CABINET 15-09-20 – EITEM 5 – YSGOL ABERSOCH

---

**PENDERFYNIAD**

Bod y pwyllgor craffu yn parhau i bryderu am y sefyllfa, ac felly'n cyfeirio'r mater yn ôl i'r Cabinet i'w ail-ystyried am y rhesymau canlynol:

- Oherwydd sefyllfa COVID a chanllawiau cyfreithiol a pholisïau'r Adran Addysg, nid yw'n bosib' cynnal cyfarfodydd yn y ffordd arferol, ac mae'n amhosib' cael cyfarfodydd o gwbl gyda rhai unigolion sydd â diddordeb cryf yn y mater. Mae hefyd yn amhosib' cael cyfarfodydd arferol cyhoeddus yn y gymuned i drafod ac ymateb i'r ymgynghoriad.
- Roedd y Pennaeth i ffwrdd o'i gwaith yn ystod y cyfnod, ac mae'n parhau i fod i ffwrdd. Gan mai'r pennaeth parhaol sy'n gwybod orau am sefyllfa'r ysgol, byddai parhau gyda'r broses tra mae hi'n parhau i fod i ffwrdd yn annheg i'r ysgol a'r gymuned.
- Cred rhai na ddylid cau ysgolion bach heb graffu ar y penderfyniad.

---

**CANLYNIAD Y BLEIDLAIS**

O blaid: 5
Yn erbyn: 1
Atal: 5

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL A MATERION PROTOCOL**

Datganodd y Cynghorydd Dewi Roberts fuddiant personol yn y mater oherwydd ei fod yn llywodraethwr yr ysgol, ond oherwydd iddo gael ei benodi i'r rôl honno gan yr Awdurdod, fe'i cynghorwyd bod eithriad yn y Cod yn caniatáu iddo gymryd rhan lawn yn y drafodaeth.

---